**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 9 Ionawr 2002

**Amser:** 2.00 hyd 5.00 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora , Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## CYNGOR GAN GRP BIOAMRYWIAETH CYMRU AR ADRODDIAD BIOAMRYWIAETH Y MILENIWM Y DU

## DIBEN

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cyngor ar Adroddiad Bioamrywiaeth y Mileniwm y DU a baratowyd gan Grp Bioamrywiaeth Cymru. Comisiynwyd y cyngor gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, a chyflwynir y papur hwn gan Grp Bioamrywiaeth Cymru.

## CRYNODEB

Yn Adroddiad Bioamrywiaeth y Mileniwm, mae Grp Bioamrywiaeth y DU yn pwyso a mesur yn fanwl, am y tro cyntaf, yr holl gamau a gymerwyd hyd yma i roi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (1994) ar waith, ac mae'n gosod y fframwaith ar gyfer bwrw ymlaen â chamau gweithredu ar fioamrywiaeth yn dilyn datganoli. Mae Grp Bioamrywiaeth Cymru wedi paratoi cyngor (Atodiad 1) i bwysleisio arwyddocâd canfyddiadau Adroddiad Bioamrywiaeth y Mileniwm i Gymru, ac i nodi pa gamau y dylid eu cymryd i adeiladu ar y sylfaen gref a osodwyd dros y saith mlynedd diwethaf.

## CEFNDIR

Mae gan Gymru fioamrywiaeth eithriadol o gyfoethog, o ystyried ei maint. Mae cyfran gymharol uchel o arwynebedd ei thir (tua 30%) yn cynnwys cynefinoedd gwerthfawr o ran bywyd gwyllt, ac mae'r ffaith y cynigiwyd cyfran uchel (rhyw 70%) o'i harfordir a'i moroedd i'w dynodi ar lefel Ewropeaidd yn dangos pa mor bwysig yw eu hamgylchedd o ran cadwraeth. Mae gan Gymru hefyd gyfrifoldeb arbennig i warchod rhai rhywogaethau sy'n brin neu dan fygythiad, gan gynnwys ystlumod trwyn pedol, gwelyau marchfisglod, a brith y gors, a arferai fod yn löyn byw cyffredin iawn.

Yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, creda’r Grp y dylid gwarchod bioamrywiaeth Cymru mewn ffyrdd sy’n adlewyrchu ei botensial i gyfrannu at ein hamcanion cymdeithasol ac economaidd. Gellir crynhoi ein casgliadau a’r camau a gynigiwn i hybu’r gwaith o warchod bioamrywiaeth yng Nghymru trwy gyfrwng y themâu canlynol:

**Mwy o gyfrifoldebau a chyfleoedd** i benderfynu ar y ffordd y byddwn yn rhoi Cynllun Bioamrywiaeth y DU ar waith, er mwyn adlewyrchu egwyddorion cadwraeth unigryw Cymru a chyflawni’n dyletswyddau rhyngwladol ar yr un pryd;

**Pwysigrwydd gweithredu’n lleol**, gan fod hynny’n cynorthwyo i gynnwys anghenion bioamrywiaeth o fewn gwasanaethau lleol, i gyfoethogi’r bywyd gwyllt sy’n werthfawr i gymunedau lleol yn ogystal â’r hyn a nodir fel bod yn bwysig yn genedlaethol neu’n rhyngwladol, ac i sicrhau bod pobl leol yn ymwneud â gwaith cadwraeth;

**Integreiddio polisïau yn well** – er mwyn sicrhau manteision tymor hir i gefn gwlad yn ei gyfanrwydd, rhaid i ystyriaethau bioamrywiaeth ddod yn rhan annatod o’r broses o lunio polisïau a’u rhoi ar waith, fel rhan o ddatblygu cynaliadwy;

**Sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau arbenigol ym maes bioamrywiaeth ar gael yn rhwyddach** er mwyn gwella’r gwaith a wneir ar lawr gwlad, yn arbennig trwy ddefnyddio TGCh;

**Meithrin cefnogaeth ehangach i fioamrywiaeth**, trwy gynorthwyo cymunedau lleol a’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau i ddeall sut y gall camau gweithredu ym maes bioamrywiaeth roi atebion i’w problemau.

**CYDYMFFURFIO**

Mae Adran 74 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi rhai dyletswyddau penodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â bioamrywiaeth. Mae’r rhain yn cynnwys dyletswydd ar y Cynulliad i gadw mewn cof y diben o warchod amrywiaeth biolegol yn unol â Chytundeb 1992 ar Amrywiaeth Biolegol wrth arfer ei swyddogaethau, cyn belled ag y bo’r diben hwnnw’n gyson â’r gwaith o arfer y swyddogaethau hynny’n briodol.

**CYSWLLT**

Nicola Donlon, Is-adran Cefn Gwlad (est. 5985)